# MSc Arfer Uwch a micro-gymwysterau

Hannah Amos, Cyfarwyddwr Rhaglen, Prifysgol Metropolitan Caerdydd

## Cefndir a chyd-destun

Mae rhaglen MSc Arfer Uwch ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd yn fenter ôl-raddedig Lefel 7 a gynlluniwyd ar gyfer proffesiynwyr gofal ac iechyd sy'n ceisio dyfnhau eu harbenigedd ar draws pedwar prif faes: arfer clinigol, ymchwil ac archwilio, arweinyddiaeth a rheolaeth, ac addysg. Mae'r cwrs yn adlewyrchu ymrwymiad i ddysgu cyd-destunol, cymhwysol sy'n gwella darpariaeth gwasanaethau a thwf proffesiynol.

Yn hanesyddol, roedd y rhaglen yn cynnig pedwar llwybr gwahanol i Broffesiynwyr ym maes Iechyd: Awdioleg, Dieteteg, Cyhyrysgerbydol a Therapi Iaith a Lleferydd. Yn bennaf, roedd y rhain yn cynnwys modiwlau a astudiwyd o fewn y llwybrau arbenigol ac, er bod rhai modiwlau craidd yn cael eu rhannu, gallai staff a myfyrwyr deimlo'n ynysig yn eu dysgu a'u haddysgu. Roedd diffyg hyblygrwydd yn y strwythur hefyd i broffesiynwyr gydbwyso gyrfaoedd heriol a chyfrifoldebau personol. Roedd y llwybr traddodiadol yn gofyn i fyfyrwyr rhan-amser gwblhau 60 credyd yn flynyddol dros dair blynedd, gyda ffenestr o bum mlynedd ar gyfer cyflawni'r holl gwrs. Fodd bynnag, profodd y model hwn yn gyfyngol i ddysgwyr yr oedd angen opsiynau mwy addasadwy arnynt.

## Adolygu ac ailgynllunio'r cwricwlwm

Yn dilyn adolygiad cyfnodol yn 2024, aeth tîm y rhaglen ati i ailgynllunio’r ddarpariaeth er mwyn mynd i'r afael â hyfywedd, cynaladwyedd a hygyrchedd. Cyflwynwyd llwybrau newydd fel Technoleg Ddeintyddol a Materion Cymhleth yn ymwneud â Choesau, ochr-yn-ochr ag opsiwn 'Gofal Iechyd' cyffredinol i ddarparu ar gyfer nyrsio a gweithwyr iechyd cysylltiedig nad oeddent wedi'u cynnwys o'r blaen. Ehangodd y portffolio o 14 i 21 modiwl, gan alluogi cymysgedd o fodiwlau craidd, e.e. arfer yn seiliedig ar dystiolaeth, ochr-yn-ochr â modiwlau arbenigol wedi’u cynllunio’n benodol, fel asesu cyflwr taflod genau hollt a gwyddoniaeth esgidiau. Roedd datblygiad y modiwl o gymorth i addysgu a chydweithio rhyngbroffesiynol, gyda myfyrwyr yn cael mynediad at fwy o addysgu ar y cyd wedi’i ddarparu gan y tîm yn hytrach nag arweinwyr modiwlau unigol.

Roedd cyflwyno llwybr micro-gymwysterau yn ddatblygiad allweddol.  Mae'r model hyblyg hwn yn caniatáu i ddysgwyr astudio modiwlau unigol heb ymrwymo i ddyfarniad llawn ymlaen-llaw. Gellir bancio credydau a'u defnyddio'n ddiweddarach tuag at Dystysgrif Ôl-raddedig, Diploma neu MSc. Gall dysgwyr ddewis astudio un, dau, neu dri modiwl y flwyddyn, gyda'r opsiwn o oedi eu taith academaidd yn ôl yr angen.

**Manteision micro-gymwysterau**

- Gellir astudio 21 modiwl yn unigol fel micro-gymwysterau
- Mae'r dysgwr yn dewis 1, 2 neu 3 modiwl y flwyddyn
- Gall hyn olygu blynyddoedd cyfamserol heb astudiaeth academaidd
- Gall credydau gael eu 'bancio'
- Mae yna gyfle i adeiladu ar gyfer Tystysgrif Ôl-raddedig, Diploma neu radd Meistr
- Nid oes angen ymrwymo i ddyfarniad tan y pwynt ymadael




Mae’n bwysig nodi bod myfyrwyr sy’n astudio micro-gymwysterau wedi'u hintegreiddio'n llawn i'r gymuned Arfer Uwch, gan dderbyn yr un gefnogaeth, arweiniad a mynediad at adnoddau’r brifysgol â myfyrwyr MSc traddodiadol.

**Effaith a gweledigaeth ar gyfer y dyfodol**

Mae'r rhaglen, sydd wedi'i hailddylunio, eisoes wedi dangos arwyddion addawol o effaith. Mae dysgwyr yn adrodd am newidiadau yn eu harfer o ddydd-i-ddydd o'r cychwyn cyntaf, gydag un clinigwr profiadol yn nodi trawsnewidiad mewn ymgynghoriadau â chleifion ar ôl 30 mlynedd yn y maes ac un arall yn sylwi mai 'dyma un o'r pethau gorau y mae hi erioed wedi'i wneud'. Mae tiwtoriaid yn meithrin perthnasoedd cryf â myfyrwyr, gan deilwra argymhellion modiwlau i nodau unigol ac archwilio sut y gall y modiwlau gynorthwyo â datblygiad yn y gweithle.

Denodd y micro-gymwysterau 48 o fyfyrwyr yn ystod y flwyddyn gyntaf, ac mae tîm Arfer Uwch y Brifysgol yn rhagweld twf parhaus gyda myfyrwyr micro-gymwysterau sy'n dychwelyd a myfyrwyr newydd yn y dyfodol. Nod y tîm yw codi proffil y rhaglen ac addasu'r cwricwlwm fel ei fod yn ymatebol i anghenion esblygol proffesiynwyr iechyd a gofal. Mae integreiddio micro-gymwysterau a dulliau cyflwyno hyblyg, gan gynnwys sesiynau ar-lein a sesiynau wyneb-yn-wyneb fesul bloc, yn sicrhau hygyrchedd a pherthnasedd. Mae ymwneud â chyrff proffesiynol wedi bod yn gadarnhaol, gan atgyfnerthu aliniad y rhaglen â disgwyliadau'r sector a'i photensial i feithrin cydraddoldeb ar draws rhanbarthau'r DU.

Mae’r cwrs MSc Arfer Uwch ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd yn enghraifft o sut y gall dylunio cwricwlwm meddylgar a llwybrau dysgu hyblyg rymuso proffesiynwyr, gwella ymarfer clinigol, ac adeiladu cymunedau addysgol cadarn. Trwy arloesedd a chydweithio, mae'r rhaglen yn llunio dyfodol addysg ym maes arfer uwch yng Nghymru a thu hwnt.

Cyflwynwyd yr astudiaeth achos hon yng ngweminar QAA Cymru 'Cardiau-post micro-gymwysterau o'r Gwledydd: Digwyddiad rhannu arferion gyda ffocws ar ddatblygu micro-gymwysterau ledled y DU' ar 3ydd Mehefin 2025. Roedd y weminar yn rhan o waith y Grŵp Diddordeb Arbennig Micro-gymwysterau (MIC.SIG) a ariennir gan Medr.

Dysgwch fwy am MIC.SIG ar wefan QAA Cymru.

QAA CYMRU

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research